Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bontnewydd
# Y Ganolfan
# Bontnewydd
# Gwynedd
# LL55 2UF

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bontnewydd yn lleoliad meithrin cofrestredig sy’n rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Mae’n cyfarfod mewn ystafelloedd yn y Ganolfan, Bontnewydd, am bedwar sesiwn bore'r wythnos.

Mae’r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i’r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu’r lleoliad.

Mae’r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner ar gyfer plant dwy a hanner i dair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Mae tri phlentyn yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw’r iaith a siaredir gartref gan bron bob un plentyn sy’n mynychu’r lleoliad. Prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw Cymraeg.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd a dwy ymarferydd. Maent oll wedi’u cymhwyso’n briodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Ionawr 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod ymarferwyr yn:

- sicrhau bod darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- cynllunio profiadau dysgu diddorol a chyffrous sy'n ennyn diddordeb pob plentyn;
- darparu cyfleoedd da i blant fentro a datblygu'n ddysgwyr annibynnol;
- darparu cyfleoedd da i blant fod yn weithredol yn eu dysgu;
- defnyddio gwybodaeth asesu'n effeithiol i gynllunio ar gyfer y dyfodol;
- gwneud yn siŵr bod llais y plentyn yn cael lle amlwg mewn hunan-arfarnu;
- creu ethos teuluol sy'n rhoi bri ar gyfeillgarwch, gonestrwydd a pharch; a bod
- sicrhau trefniadau rhagorol ar gyfer hysbysu rhieni'n ddyddiol o'r hyn a gyflawnwyd gan eu plentyn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- ansawdd uchel yr arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad;
- pob ymarferydd yn cyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn gweithio'n dda fel aelodau o dîm;
- staff yn defnyddio hunan-arfarnu'n effeithiol er mwyn gwneud gwelliannau;
- ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel;
- nifer dda o bartneriaethau'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant;
- ymarferwyr yn barod i roi cynnig ar syniadau newydd a dulliau gwahanol o weithio; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Rhoi rôl fwy gweithredol i'r pwyllgor rheoli yn y trefniadau hunan-arfarnu.
2. Darparu mwy o arweiniad yn y llawlyfr i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant gartref.

### Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydgynllunio gofalus, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol sy'n bodloni anghenion plant o'r holl ystod gallu ac oedran. Mae'r arfer o addysgu'r cwricwlwm trwy themâu, megis 'Y Gaeaf,' yn sicrhau ymdriniaeth briodol â phob maes dysgu dros gyfnod o amser. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol wrth i'r plant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn aml iawn yn hynod o ddiddorol ac yn cynnig cyfleoedd da i blant wneud penderfyniadau a dewis llwybr dysgu eu hunain. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw parodrwydd ymarferwyr i ystyried syniadau plant ac i addasu'r cwricwlwm yn sgil hynny.

Oherwydd bod gan blant rôl weithredol yn eu dysgu, cânt gyfleoedd da i gydweithio ag eraill ac i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd. Er enghraifft, wrth i blant ddewis dillad addas ar gyfer tywydd oer, roeddynt yn rhannu syniadau, yn aros eu tro wrth ddewis pa gotiau, menig a hetiau i'w gwisgo ac yn helpu ei gilydd. Roedd dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd trwy ddysgu am arferion yr ŵyl, gwneud lanteri ac efelychu dawns draddodiadol y ddraig, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau a chrefyddau eraill.

Mae darpariaeth gadarn iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae ffocws cryf ar annog plant i gymryd rôl weithredol mewn trafodaethau grŵp. Cânt eu hannog i rannu eu profiadau a'u syniadau, i fynegi barn ac i wrando'n gwrtais ar gyfraniadau plant eraill. Cânt gyfleoedd yn ddyddiol i wrando ar storïau'n cael eu darllen gan oedolyn ac i ymddiddori mewn llyfrau o'u dewis eu hunain yn annibynnol. Mae cyfleoedd da yn ystod y ddarpariaeth barhaus i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar trwy wneud marciau i bwrpas, er enghraifft, i wneud rhestrau neu i ysgrifennu eu henwau.

Mae'r arfer ar gychwyn sesiynau o gyfrif faint sy'n bresennol, yn rhoi cyfleoedd da i blant ddysgu am werth cymharol gwahanol rifau a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at rifedd. Mae ymarferwyr yn defnyddio rhigymau rhif a chaneuon mae'r plant wedi'u dysgu ar eu cof yn fedrus iawn i ddatblygu eu medrau ac i wneud y gwaith yn hwyl. Gwna gweithgareddau megis gwneud jig-sos ac arbrofi yn y cafn dŵr neu'r cafn tywod gyfraniad gwerthfawr tuag at ddatblygiad medrau rhifedd plant.

Mae'r amrediad eang o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sydd ar gael i'r plant yn gyson, yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygu eu medrau yn y maes.

Mae'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gonglfaen cadarn i holl brofiadau dysgu'r plant ac yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda iawn fel tîm ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad addysgol a phersonol plant. Mae ganddynt afael cadarn ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn gwybod yn dda am ddatblygiad plant. Daw hyn i'r amlwg yn y ffordd maent yn amrywio gweithgareddau er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwaith yn cydweddu'n glos â gallu ac anghenion yr unigolion neu grŵp sydd dan sylw. Trwy ymyrraeth bwrpasol a chwestiynu medrus, llwyddant yn dda i herio syniadau plant ac i symud dysgu yn ei flaen. Caiff pob plentyn ei annog i wneud dewisiadau, i gynhyrchu syniadau ei hun ac i lynu at dasg dros gyfnod estynedig. Mae'r pwyslais cryf a roddir gan yr holl ymarferwyr ar ddysgu gweithredol yn sicrhau ymglymiad bron pob plentyn ac yn cyfrannu'n gryf tuag at eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Caiff tasgau ffocws sydd o dan gyfarwyddyd ymarferydd eu defnyddio ar gyfer cyflwyno medrau penodol i grwpiau o unigolion, neu i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn profi'r un gweithgaredd, er enghraifft, darparu bwyd i adar bach. Fodd bynnag, yn ystod y ddarpariaeth barhaus, mae plentyn yn rhydd i wneud dewisiadau ei hunan.

Mae gallu ymarferwyr i reoli ymddygiad mewn ffordd dawel ac amyneddgar yn cyfrannu'n dda tuag at greu ethos cartrefol yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o dda eu hunain ac maent yn sensitif iawn yn y ffordd maent yn cywiro ac yn gwella iaith plant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cadw cofnod manwl o gynnydd pob unigolyn trwy gydol eu hamser yn lleoliad. Mae trefniadau effeithiol a systematig gan ymarferwyr ar gyfer cofnodi eu harsylwadau o ymateb plant i'w profiadau dysgu ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol iawn ar gyfer cynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Pan fydd plant yn rhannu gwaith ei gilydd gyda'r grŵp, cânt bob tro eu hannog i roi adborth adeiladol i'w cyfoedion.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys y rhieni wrth asesu eu plant. Mae'r cyfleoedd gânt i drafod targedau eu plentyn gyda'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Daw pob plentyn i'r lleoliad yn hapus ac yn siriol. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Trwy annog plant i olchi dwylo cyn bwyd, hybir arferion hylendid yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd dyddiol a gaiff plant i rannu eu profiadau a chymryd rhan mewn ymarfer corfforol yn y neuadd neu y tu allan, yn helpu plant yn dda i gyflawni eu lles emosiynol a chorfforol. Mae trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn rhydd o unrhyw aflonyddwch corfforol neu emosiynol. Anogir pob plentyn i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad ac i ymgymryd â dyletswyddau, megis 'monitor heddiw,' twtio ar ddiwedd sesiwn neu rannu adnoddau.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod plant am y byd y maent yn byw ynddo, ac yn arbennig am fyd natur. Yn ogystal, caiff gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch eu hybu'n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae plant yn cael eu hannog i ddangos blaengaredd, i reoli eu hymddygiad a bod yn fodlon i rannu adnoddau gyda phlant eraill. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae'r arweinydd yn gweithredu'n fuan os oes pryder ynghylch datblygiad neu les unrhyw blentyn. Pan fo angen cymorth neu gefnogaeth arbenigol ar blentyn neu riant, mae'n gwybod yn dda gyda phwy i gysylltu.

Mae'r trefniadau sefydlu da ynghyd â gofal ymarferwyr, yn sicrhau bod plant sy'n newydd yn y lleoliad yn ymgynefino'n ddidrafferth

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall plant fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o'r ardal leol, ynghyd ag ardaloedd y tu allan i'r ysgol gynradd, megis y buarth a'r ardd, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Defnyddia'r lleoliad adnoddau a phobl yn y gymuned leol yn bwrpasol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae ymweliadau, megis â chanolfan yr ambiwlans awyr ac â fferm leol, wedi cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cynnig mynegiad llawn i unrhyw ddisgyblion ag anableddau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd, mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben gyda phlant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r synnwyr cryf o ddiben a grëir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol yn ystod sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau clir ac effeithiol sydd ar gyfer gwerthuso staff yn arwain at adnabod anghenion hyfforddiant pob unigolyn. Mae perthynas y lleoliad gyda phlant, rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol i synnwyr o gymuned.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth addas am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae swyddogion y pwyllgor yn ymgynghori ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weinyddiaeth y lleoliad. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r pwyllgor gyfrannu at drefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Drwy anogaeth yr arweinydd, maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut mae hunan-arfarnu wedi'u galluogi i wneud gwelliannau arwyddocaol i ansawdd cynllunio ac asesu.

Mae'r arfer o neilltuo amser penodol i bob plentyn drafod ei farn am y sesiwn gyda'r arweinydd cyn mynd adref, yn rhagorol. Mae'n sicrhau bod llais y plentyn yn rhan anhepgor o drefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu ddiweddar, ynghyd â'r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu'n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd a'r ymarferwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i geisio'u cynnwys yn y gweithgareddau a drefnir. Mae llawlyfr rhieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ond nid yw'n cynnig digon o arweiniad i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant gartref. Mae'r drefn o roi gwybodaeth ddyddiol i bob rhiant o'r hyn a gyflawnwyd gan eu plentyn yn ystod y sesiwn, yn arfer ragorol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo plant i'r dosbarth meithrin ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r cysylltiadau da a ffurfiwyd gyda phobl a sefydliadau yn y gymuned, megis yr Ambiwlans Awyr, wedi arwain at fanteision sylweddol i blant y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff ac adnoddau'n cael eu rheoli'n fedrus iawn gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd. Maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o gyllideb y lleoliad. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Maent yn arfarnu penderfyniadau gwariant yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |